
# **Proffil Cymunedol – Dwyrain y Fro**

At ddibenion yr Asesiad Llesiant ac i gael dealltwriaeth well o'n cymunedau ym Mro Morgannwg rydym wedi rhannu'r ardal yn dair cymuned, y Barri, Gorllewin y Fro a Dwyrain y Fro. Mae'r proffiliau cymunedol hyn wedi'u datblygu i gyd-fynd â phroffil Bro Morgannwg a byddwn yn parhau i wella'r proffiliau hyn fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r proffil yn dod ag ystod o wybodaeth am yr ardal ynghyd gan gynnwys data poblogaeth, manylion projectau ac asedau o fewn y gymuned; nid cyfeiriadur o wasanaethau mohono ond proffil sy'n rhoi peth gwybodaeth allweddol am yr ardal.

Pwrpas y proffil cymunedol hwn yw rhoi gwybodaeth o safbwynt ystadegau allweddol a phrojectau yn yr ardal ac i dynnu sylw at y llu o asedau sydd ym Mro Morgannwg, gan amrywio o asedau naturiol, grwpiau cymunedol a gwasanaethau. Y bwriad yw y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i wella proffiliau cymunedol Bro Morgannwg a phob un o'r tair ardal gymunedol, y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro. Bydd hyn yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'r asesiad i'r gymuned a lle bo hynny'n bosibl nodi'r bylchau a meysydd lle dylid eu gwella. Croesewir adborth ar y proffiliau fel y gellir parhau i'w datblygu fel adnodd gwerthfawr i'r ardal a sail dystiolaeth ar gyfer gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r proffil cymunedol hwn yn canolbwyntio ar ardal Dwyrain y Fro fel y nodir yn y map isod, ac mae’r ardal yn cynnwys y wardiau canlynol:

- Dinas Powys
- Sili
- Llandochau
- Cornerswell
- St. Augustine’s
- Stanwell
- Plymouth



## Data poblogaeth ac ystadegau allweddol ar gyfer yr ardal

Noder – Mae’r data yn y tabl canlynol yn seiliedig ar ffigyrau Cyfrifiad 2011 oni nodir yn wahanol. Felly, gallai’r ffigyrau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd mewn mannau eraill.

Mae’r tabl canlynol yn darparu cymhariaeth **rhwng** ein hardaloedd cymunedol o safbwynt amrywiaeth o ystadegau allweddol.

| | Y Barri | Dwyrain y Fro | Gorllewin y Fro | Bro Morgannwg | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Demograffeg a Deinameg** | | | | | |
| Poblogaeth Breswyl (Mehefin 2015) | 52,200 | 36,800 | 38,500 | 127,500 | 3,099,086 |
| Arwynebedd (Hectar) | 1,845 | 3,542 | 27,699 | 33,095 | 2,073,511 |
| Dwysedd y boblogaeth (nifer y bobl fesul hectar) | 27.8 | 10.3 | 1.4 | 3.8 | 1.5 |
| % Poblogaeth 0-15 oed | 20.5 | 17.4 | 18 | 18.9 | 18.2 |
| % Poblogaeth 16-24 oed | 11.2 | 9.2 | 10.8 | 10.5 | 12.2 |
| % Poblogaeth 16-64 oed | 64.3 | 61.4 | 62.4 | 62.9 | 63.5 |
| % Poblogaeth 65+ oed | 15.2 | 21.2 | 19.6 | 18.3 | 18.4 |
| % Poblogaeth 3+ oed sy’n gallu siarad Cymraeg | 11.1 | 10.5 | 10.8 | 10.8 | 19 |
| % Poblogaeth y mae eu gweithgareddau dyddiol wedi’u cyfyngu | 22.4 | 20.1 | 17.7 | 20.3 | 22.7 |
| **Cyflogaeth** | | | | | |
| % Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith | 3.6 | 1 | 1.4 | 2.2 | 2.8 |
| % Poblogaeth sy’n Gyflogedig mewn Galwedigaethau Proffesiynol | 12 | 24.6 | 20.3 | 18.3 | 15.8 |
| **Daliadaeth (Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% gan fod dewisiadau daliadaeth eraill ar gael)** | | | | | |
| Nifer yr Aelwydydd | 22,167 | 15,833 | 15,505 | 53,505 | 1,302,676 |
| % Yn berchen llwyr | 26.9 | 40.1 | 42.9 | 35.8 | 33.4 |
| % Yn berchen gyda morgais / benthyciad | 36.9 | 36.2 | 37.3 | 36.8 | 32 |
| % Rhent Cymdeithasol - Awdurdod Lleol | 11.5 | 4.7 | 4.7 | 7.5 | 9.9 |
| % Rhent Cymdeithasol - Arall | 7.1 | 3.8 | 1 | 4.4 | 6.7 |
| % Rhent Preifat | 14.8 | 12.2 | 10 | 12.7 | 12.7 |


| | Y Barri | Dwyrain y Fro | Gorllewin y Fro | Bro Morgannwg | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansoddiad Aelwydydd** | | | | | |
| % Aelwydydd Pensiynwyr Sengl | 12.2 | 15.3 | 12.4 | 13.2 | 13.7 |
| % Aelwydydd Rhieni Sengl | 14.5 | 9.4 | 8.5 | 7.5 | 7.5 |
| **Cyfleusterau Aelwydydd** | | | | | |
| % Aelwydydd heb Fynediad at Gar neu Fan | 27 | 17.4 | 10.6 | 19.4 | 22.9 |
| % Aelwydydd heb Wres Canolog | 1.9 | 2 | 1.1 | 1.7 | 2.3 |

Yn ogystal â gwahaniaethau rhwng ein cymunedau, mae gwahaniaethau hefyd yn bodoli **oddi mewn** iddynt. Gellir defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 i ddangos hyn. Dengys y tabl canlynol safle pob ACEHI sy'n cynnwys ardal Gymunedol y Barri ar draws pob un o'r meysydd sy'n rhan o'r mynegai.


**MALlC 2014 - Safle'r ACEHI, lle mai 1 yw'r ACEHI Mwyaf Amddifad, a 1909 yw'r ACEHI Lleiaf Amddifad.**

| Enw ACEHI | MALlC 2014 | Incwm | Cyflogaeth | Iechyd | Addysg | Mynediad at wasanaethau | Diogelwch Cymunedol | Amgylchedd Ffisegol | Tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cornerswell 1 | 1771 | 1516 | 1451 | 1648 | 1593 | 1905 | 1575 | 1242 | 1490 |
| Cornerswell 2 | 1050 | 821 | 1093 | 909 | 830 | 1530 | 1041 | 1040 | 491 |
| Cornerswell 3 | 1278 | 1181 | 1213 | 719 | 1193 | 1070 | 1181 | 1018 | 1193 |
| Cornerswell 4 | 1724 | 1452 | 1541 | 1359 | 1475 | 1782 | 1248 | 1252 | 1687 |
| Dinas Powys 1 | 1881 | 1875 | 1839 | 1873 | 1897 | 1676 | 1416 | 617 | 1729 |
| Dinas Powys 2 | 1792 | 1700 | 1826 | 1866 | 1701 | 1833 | 1363 | 247 | 1465 |
| Dinas Powys 3 | 887 | 803 | 790 | 838 | 761 | 916 | 900 | 749 | 1457 |
| Dinas Powys 4 | 1691 | 1802 | 1730 | 1547 | 1751 | 848 | 1868 | 158 | 1737 |
| Dinas Powys 5 | 1799 | 1767 | 1791 | 1279 | 1776 | 1484 | 1284 | 1029 | 1565 |
| Llandochau | 1553 | 1653 | 1472 | 1154 | 1702 | 812 | 1049 | 705 | 840 |
| Plymouth (Bro Morgannwg) 1 | 1856 | 1869 | 1874 | 1865 | 1901 | 582 | 1801 | 1780 | 1892 |
| Plymouth (Bro Morgannwg) 2 | 1635 | 1398 | 1573 | 1661 | 1647 | 522 | 1670 | 1270 | 1472 |
| Plymouth (Bro Morgannwg) 3 | 1803 | 1726 | 1856 | 1173 | 1909 | 1151 | 1645 | 1442 | 1525 |
| St. Augustine's 1 | 1669 | 1317 | 1426 | 1683 | 1818 | 1240 | 1301 | 967 | 1157 |
| St. Augustine's 2 | 1507 | 1229 | 1181 | 1094 | 1576 | 1902 | 955 | 1401 | 808 |
| St. Augustine's 3 | 1477 | 1407 | 1393 | 770 | 1477 | 1908 | 315 | 1258 | 1352 |
| St. Augustine's 4 | 1544 | 1343 | 1453 | 1697 | 1261 | 1607 | 1078 | 305 | 909 |
| Stanwell 1 | 982 | 676 | 987 | 1068 | 1013 | 1028 | 1253 | 1365 | 382 |
| Stanwell 2 | 1867 | 1754 | 1720 | 1703 | 1856 | 1882 | 1115 | 1216 | 1497 |
| Stanwell 3 | 777 | 635 | 719 | 686 | 957 | 671 | 565 | 1369 | 1151 |
| Sili 1 | 1655 | 1625 | 1748 | 1607 | 1617 | 710 | 1885 | 226 | 1640 |
| Sili 2 | 1660 | 1667 | 1660 | 1768 | 1886 | 648 | 1628 | 196 | 1540 |
| Sili 3 | 1645 | 1763 | 1662 | 1346 | 1848 | 272 | 1526 | 1765 | 1463 |

## WIMD 2014 – MALIC




## WIMD 2014 – Incwm





© Crown Copyright. Licence number 100043376

- 10% most deprived - Ranks 1 to 191
- 11%-20% most deprived - Ranks 192 to 382
- 21%-30% most deprived - Ranks 383 to 573
- 31%-50% most deprived - Ranks 574 to 955
- 50% least deprived - Ranks 956 to 1,909

## WIMD 2014 - Cyflogaeth




## WIMD 2014 – Iechyd





© Crown Copyright. Licence number 100043376

## WIMD 2014 – Addysg




# WIMD 2014 – Mynediad at wasanaethau





© Crown Copyright. Licence number 100043376

- 10% most deprived - Ranks 1 to 191
- 11%-20% most deprived - Ranks 192 to 382
- 21%-30% most deprived - Ranks 383 to 573
- 31%-50% most deprived - Ranks 574 to 955
- 50% least deprived - Ranks 956 to 1,909


# WIMD 2014 – Diogelwch Cymunedol



## WIMD 2014 – Amgylchedd Ffisegol



## WIMD 2014 – Tai



## Yr ardal leol

Mae gan bron bob ardal ym Mro Morgannwg ei chyngor cymuned ei hun; yn Nwyrain y Fro mae un Cyngor Tref, Penarth, a 4 o gynghorau cymuned. Ceir ystod o gyfleusterau cymunedol a diwylliannol yn yr ardal gan gynnwys Ystafelloedd Paget yng nghanol Penarth sy'n cynnal amrywiaeth eang o gynyrchiadau theatr a chyngherddau gydol y flwyddyn, a hefyd Pafiliwn Pier Penarth sydd wedi ennill gwobr, ac sy'n cynnal arddangosfeydd a sinema. Yn ogystal, mae Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston a glan môr hardd.

Mae gan yr ardal gysylltiadau rheilffordd da i Gaerdydd a'r rhanbarth, gyda phedair gorsaf yn yr ardal.

Hefyd mae Ysbyty Athrofaol Llandochau wedi ei leoli yn yr ardal. Derbyniodd fuddsoddiad mawr ac mae wedi ehangu'r gwasanaethau yn y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys agor Canolfan Iechyd Meddwl Oedolion newydd.

Ceir amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol a chefnogaeth yn yr ardal, gan gynnwys banc bwyd, mynediad i drafnidiaeth gymunedol a Dinas Powys Voluntary Concern, sy'n darparu gwasanaeth i unigolion, grwpiau ac i lawer o'r hanner cant neu fwy o fudiadau gwirfoddol sy'n gweithredu yn Ninas Powys.

Mae cyfleusterau ac amwynderau eraill yn yr ardal yn cynnwys:


- 6 Practis Meddyg Teulu
- 1 Gorsaf Dân
- 3 Llyfrgell
- 4 Canolfan Gymunedol
- 6 Parc
- 16 o Ysgolion

## Nodweddion/Projectau Allweddol yn yr ardal

***Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC)*** a sefydlwyd yn 2004 ac sy'n fenter adfywio gwledig a ariennir drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chyngor Bro Morgannwg. Gwneir gwaith mewn partneriaeth â chymunedau i ddatblygu projectau a syniadau arloesol a fydd yn creu manteision cymdeithasol ac economaidd tymor hir i Fro Morgannwg. Y nod yw grymuso unigolion i gymryd rhan weithredol yn nyfodol eu cymunedau. Goruchwylir y rhaglen gan Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl), a daw aelodaeth y grŵp o sectorau Preifat, Cyhoeddus, Gwirfoddol a Chymunedol yn y Fro. Mae'r rhaglen yn cwmpasu Dinas Powys a Sili.

## Beth rydym wedi ei ddysgu trwy ein hymgysylltiad

Dengys y graff isod bod ymatebwyr i'r arolwg Amser Siarad sy'n byw yn Nwyrain y Fro yn tueddu i fod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â Bro Morgannwg fel lle i fyw.




Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr ar draws tair ardal Bro Morgannwg naill ai'n "fodlon iawn" neu'n "weddol fodlon" gyda Bro Morgannwg fel lle i fyw. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng tair ardal Bro Morgannwg o ran bodlonrwydd ond nodwyd Dwyrain y Fro fel yr ardal lle'r oedd yr ymatebwyr fwyaf bodlon arno fel lle i fyw.

Yng Ngŵyl Penarth, a oedd y digwyddiad cyntaf i ni fynychu fel rhan o'n rhaglen ymgysylltu, arbrofwyd drwy ddefnyddio tri chwestiwn gyda 22 o bobl. Er bod yr ymatebion a gafwyd wedi rhoi rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i ni, teimlwyd fod y cwestiynau yn rhy gymhleth a chawsant eu newid i fod yn rhai symlach.

Gwelir isod y cwestiynau a ofynnwyd ym Mhenarth, ac arwydd o rai o'r ymatebion:

- **Dywedwch wrthym beth sydd bwysicaf i chi am eich iechyd a llesiant?**
- ❖ Treulio amser gyda theulu a ffrindiau
- ❖ Bod yn heini
- ❖ Cadw'n symudol ac yn iach
- ❖ Bwyta'n iach
- ❖ Mynediad at wasanaethau iechyd
- ❖ Mynediad at fannau awyr agored

- **Beth fyddai'n eich helpu fwyaf i aros yn annibynnol a'ch atal rhag bod angen gofal a chymorth yn y dyfodol?**
- ❖ Cadw'n heini ac egnïol
- ❖ Iechyd da
- ❖ Gwasanaethau iechyd
- ❖ Sgrinio
- ❖ Cefnogaeth leol
- ❖ Trafnidiaeth
- ❖ Llety pobl hŷn addas

- **Sut y dylai gwasanaethau (cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat) newid er mwyn helpu i wella iechyd a llesiant?**
- ❖ Cyfleusterau lleol
- ❖ 'Mae gwasanaethau cyhoeddus yn dda ar hyn o bryd'
- ❖ Gwell cydlynu gwasanaethau gan gynnwyd iechyd a thrafnidiaeth gyhoeddus
- ❖ Canolfannau galw heibio ar gyfer iechyd a gwybodaeth

- ❖ Gwasanaethau ar agor ar ddydd Sadwrn
- ❖ Cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi

Cafodd y cwestiynau hyn eu diwygio yn dilyn hynny a defnyddiwyd y cwestiynau newydd ar gardiau post ac mewn digwyddiadau. Cwblhawyd 32 o gardiau post gan drigolion ardal y Dwyrain, sydd yn ymateb isel. Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn beth sy'n dda am lle'r ydych chi'n byw yn ymwneud â thawelwch yr ardal a chael cymdogion da a bod yn rhan o'r gymuned. Roedd trafnidiaeth dda a mynediad i'r siopau yn themâu cyffredin, fel yr oedd bod yn agos at y môr a chefn gwlad. Yn Nwyrain y Fro, y materion mwyaf cyffredin a godwyd mewn ymateb i'r hyn a allai fod yn well oedd trafnidiaeth gyhoeddus, parcio a chyflwr y ffyrdd. Mewn ymateb i'r cwestiwn pa wasanaethau oedd yn bwysig ar gyfer eich iechyd a llesiant, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn ymwneud â mynediad at gyfleusterau hamdden, mynediad at feddyg teulu ar gyfer apwyntiadau, a bod yn rhan o'r gymuned e.e. trwy gymryd rhan mewn grŵp lleol. Roedd llawer o'r atebion a roddwyd i'r cwestiynau hyn yn gyson ar draws Bro Morgannwg a cheir mwy o wybodaeth yn yr adroddiad ymgysylltu ar wahân, 'Amser Siarad am y Fro'

Wrth i ni barhau i ymgysylltu â'r gymuned leol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein hamcanion a chynllun llesiant, byddwn yn awyddus i ymchwilio yn fanylach i'r hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi am eu hardal leol, a beth fyddai'n gwella eu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.